**Cofnodion Bwrdd TrC**

**15 Rhagfyr 2022**

09:30 – 17:00

Lleoliad – Llys Cadwyn

---

**Yn bresennol**
Scott Waddington (Cadeirydd), Alun Bowen, Heather Clash, Nicola Kemmery, Vernon Everitt, Alison Noon-Jones a James Price.

Hefyd yn bresennol: Jeremy Morgan; Leyton Powell (eitem 2); a Natalie Feely (eitemau 1 i 3).

**<u>Rhan A – Cyfarfod o'r Bwrdd Llawn</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Sarah Howells.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiannau**
Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 17 Tachwedd 2022 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**
Nawr bod amodau'r gaeaf wedi ein cyrraedd, mae angen bod yn glir ynghylch meysydd cyfrifoldeb TrC dros raeanu ac ati i atal llithro, baglu a chwympo.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**
Roedd y pwyntiau wedi torri yng Nghaerdydd Canolog y bore yma. Byddai'r cyfathrebu â chwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt wedi gallu bod yn well.

**2. Perfformiad diogelwch**
Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddau arolygiad diweddar gan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd mewn perthynas â rheoli gyrwyr a hyfforddiant staff yr ystafell reoli. Ni nodwyd unrhyw broblemau mawr.

[redacted]

Cafodd y Bwrdd ei friffio am ddau ddigwyddiad yn safle adeiladu depo Ffynnon Taf, y camau a gymerwyd ar unwaith mewn ymateb, a'r broses ymchwilio ddilynol.

Mae perfformiad diogelwch y rheilffyrdd yn erbyn targedau yn parhau i wella'n gyson ar gyfer y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad allweddol. 0.02 oedd sgôr mynegai marwolaethau wedi'i bwysoli y gweithlu dros y cyfnod, gyda chyfartaledd blynyddol newidiol o 0.04. Mae hyn yn is na'r ffigur a ragwelwyd, sef 0.07. Roedd gostyngiad mewn anafiadau nad oeddent yn ymwneud â'r gweithlu dros y cyfnod ond mae'r ffigurau'n dal ychydig yn uwch na'r rhai a ragwelwyd. Prif achosion anafiadau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu yw PTI a llithro, baglu a chwympo. Mae ymosodiadau corfforol wedi gostwng o 27 yn y cyfnodau 04-06 i 16 yn y cyfnodau 07-08. Nid oedd unrhyw SPADs yng nghyfnod 08.

Hefyd cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i storio batris lithiwm yn ddiogel ar gyfer y fflyd rheilffyrdd newydd, datblygu cynllun atal hunanladdiad ar y cyd â phartneriaid allweddol yn y diwydiant, a gweithredu Ymgyrch Genesis.

Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

**3. Diweddariad strategol**

**3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Yn ystod y mis diwethaf, canolbwyntiwyd ar gyllidebau a chynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, cyflwyno unedau CAF newydd i'r gwasanaeth i deithwyr, cynllunio hirdymor parhaus ynghylch ymyriadau trafnidiaeth yn y dyfodol, ffocws parhaus ar gyflawni rhaglen Llinellau Craidd y Cymoedd, a chynnydd o ran adolygu teithio llesol.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a oedd yn canolbwyntio ar fysiau, gweithio gyda'n gilydd i sicrhau newid mewn dulliau teithio, ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, a'r angen i gynnig cyfres o opsiynau cyflawni.

Roedd y Bwrdd yn croesawu'r ffaith bod yr holl drafodaethau ynghylch cyflogau ar draws grŵp cwmnïau TrC wedi dod i ben gyda chanlyniad. Diolchodd y Bwrdd i'r holl dimau am gefnogi'r gwahanol agweddau ar gyflawni hyn.

[redacted]

Mae'r cynnydd o ran trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn parhau'n dda, gydag uwch reolwyr yn canolbwyntio'n benodol ar yr adran Caerdydd i Rymni a dechrau defnyddio.

[redacted]

Mae adolygiad o weithgareddau teithio llesol yn parhau i sicrhau bod ansawdd cynlluniau ledled Cymru mor uchel â phosib, ac i hwyluso newid mewn dulliau teithio. Nododd y Bwrdd y materion allweddol sy'n cael eu hadolygu, gan gynnwys cynlluniau treigl dros ddiwedd y flwyddyn a chyflymder dyrannu gwariant gweithredol i awdurdodau lleol. Caiff archwiliad dwfn ei gynnal yn y dyfodol agos.

**3b. Cyllid a llywodraethu**

Mae'r ffocws wedi bod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sy'n nesáu, ac ar gynllunio ar gyfer 2023-24. [redacted]

Hysbyswyd y Bwrdd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch cynnal a chadw'r trenau dosbarth 230 ar ôl i Vivarail fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Nododd y Bwrdd nad oes unrhyw beth yn ddyledus gan Vivarail i TrC ond ei fod yn chwilio'n frwd am ddarnau sbâr a chyfarpar ar gyfer yr unedau.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu cynllun busnes 2023-24, mesurau i fynd i'r afael ag osgoi talu am docyn, a chynnydd o ran datblygu'r Amgylchedd Rheoli Uwch.

Nododd y Bwrdd gyfrifon rheoli mis Tachwedd 2022.

**3c. Cynnig i gau PTI Cymru Holdings Ltd**

Cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:

- Trafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i Gytundeb Trosglwyddo Asedau, gan dderbyn yn gyfreithiol rhwymedigaethau PTI Cymru yn y dyfodol i'r cwmni;
- hysbysiad yn cael ei roi i Dŷ'r Cwmnïau bod PTI Cymru wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

Gadawodd Natalie Feeley y cyfarfod.

**4. Cyllideb**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyllideb 2023-24.

**<u>Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol</u>**

**5. Diweddariad ar drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd**

Ymunodd Tony Mercado, Dan Tipper a Jan Chaudhry Van der Velde â'r cyfarfod.

[redacted]

[redacted]

Gadawodd Tony Mercado, Dan Tipper a Jan Chaudhry Van der Velde y cyfarfod.

**6. Edrych ymlaen at chwe mis nesaf Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd**

Nododd y Bwrdd y broses edrych ymlaen a chytuno y dylid cynnwys unrhyw eitemau arwyddocaol yn adran seilwaith adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**7. Rhaglen Gwelliannau Caerdydd Canolog**

Ymunodd Geoff Ogden, Amy Nicholls ac Adam Day â'r cyfarfod.

[redacted]

Gadawodd Amy Nicholls ac Adam Day y cyfarfod.

**8. Talu wrth Fynd**

Ymunodd Dave Williams a Helen Mitchell â'r cyfarfod.

[redacted]

Ymunodd Dave Williams a Helen Mitchell â'r cyfarfod.

**9. Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn TrC**

Ymunodd Hayley Warrens a Leyton Powell â'r cyfarfod.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfeiriad strategol TrC o ran mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac argymhellion ynghylch sut gall TrC wella ei gadernid a'i allu i ymaddasu ymhellach. Hefyd cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y gyfres o ofynion adrodd ar garbon sy'n berthnasol i TrC a chytunodd i wneud y canlynol:

- dirprwyo'r gwaith o fonitro risgiau hinsawdd a chynnydd i'r Is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Chynaliadwyedd, drwy'r Grŵp Llywio Ymaddasu i'r Hinsawdd;
- cefnogi'r gwaith o weithredu safonau ISO 14090:2019 a BS 8631 i ddarparu fframwaith cadarn i TrC ar gyfer cynllunio mewn cysylltiad â'r hinsawdd; gwella'r broses o wneud penderfyniadau, a rheoli costau ymaddasu;
- hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud i hybu a blaenoriaethu'r agenda ymaddasu i'r hinsawdd;
- cymeradwyo defnydd parhaus o ganllawiau Llywodraeth Cymru i roi fframwaith cynhwysfawr a chadarn i TrC ar gyfer adrodd ar garbon corfforaethol.

Gadawodd Hayley Warrens y cyfarfod.

**10. Cofrestr risg**

Nododd y Bwrdd y gofrestr risgiau strategol a'i thrafod.

Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

[redacted]

Gadawodd Jan Chaudhry Van de Velde, Andy Quinton a Geoff Ogden y cyfarfod.

**12. Diweddariad ar yr is-bwyllgorau**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd diweddar y pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant a'r pwyllgor Archwilio a Risg.

Cytunodd y Bwrdd y dylai camau lliniaru a gymerwyd yn erbyn risgiau a nodwyd yn y gofrestr risg strategol gael eu cynnwys yn adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol o fis Chwefror ymlaen. **[Cam Gweithredu James Price a Jeremy Morgan].**

**13. Y Bwrdd Rheilffyrdd**

[redacted]

**14. Y Bwrdd Llywio**

Roedd cyfarfod diweddar Bwrdd Llywio TrC wedi rhoi sylw i weithio gyda gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru, cyllidebau a phrosiect Cyfnewidfa Caerdydd.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau.